Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Tŷ Coryton

# Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Tŷ Coryton yn darparu gwasanaeth dydd a phreswyl integredig arbenigol i blant a phobl ifanc rhwng 8 a 19 oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Ar hyn o bryd, mae 18 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion presennol wedi'u lleoli yno gan awdurdodau o Gymru.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn plasty mawr ar gyrion Caerdydd. Mae unarddeg disgybl yn preswylio yng nghartref plant Tŷ Coryton, sydd â llety pwrpasol ar wahân ar y safle.

Mae'r perchennog yn gwmni cyfyngedig, y mae ei wasanaethau'n cynnwys dwy ysgol i ddysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae'r pennaeth addysg presennol wedi bod yn ei swydd er Rhagfyr 2013.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr.

Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i alluogi disgyblion i gyrraedd targedau mewn CAUau.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi agor siop nwyddau ail-law a chaffi sydd â chegin fasnachol a swyddfa. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ennill profiad gwaith gwerthfawr.

Mae staff yn cael cyfleoedd defnyddiol i arsylwi arfer mewn ysgolion eraill.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn groesawgar ac mae adnoddau wedi'u paru'n dda i anghenion disgyblion.

Mae arweinwyr yn monitro dosbarthiad staff cymorth yn ofalus.

Mae polisïau'n gynhwysfawr, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a, lle y bo'n briodol, maent yn cynnwys fersiynau sy'n hwylus i'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r ymweliad monitro blynyddol blaenorol.

## Meysydd i'w datblygu

Ar adegau, nid yw staff cymorth yn aros yn ddigon hir i ganiatáu i ddisgyblion ymateb yn llawn. Nid ydynt yn gwneud digon i annog disgyblion i weithio'n annibynnol.

Er bod rheolwyr yn cofnodi, olrhain a dadansoddi digwyddiadau'n ofalus, ar y cyfan, mae'r ffocws ar y disgybl. Nid yw rheolwyr yn monitro nac yn dadansoddi cyfranogiad staff er mwyn nodi patrymau.

Mae cynlluniau athrawon yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol ar gyfer asesu cymheiriaid. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgaredd bob amser yn cael ei baru'n dda â galluoedd a dealltwriaeth disgyblion.

Mae staff yn darparu templedi i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, mae ansawdd y rhain yn amrywio'n ormodol. Er enghraifft, caiff priflythrennau a llythrennau bach eu defnyddio'n anghyson ac nid yw'r templedi bob amser yn ddigon taclus.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gwella monitro digwyddiadau i gynnwys dadansoddiad o gysylltiad staff

A2 Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol, lle y bo'n briodol

A3 Adolygu'r broses asesu cymheiriaid er mwyn ei gwneud yn fwy ystyrlon i'r holl ddisgyblion

A4 Gwneud yn siŵr bod gan staff ddull cyson o ddatblygu ysgrifennu disgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu ymhellach y defnydd o ddata i olrhain y camau cynnydd bach iawn a wneir gan ddisgyblion ac i lywio'r cynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers ymweliad diwethaf Estyn, mae'r ysgol wedi gwella'i defnydd ar raglen asesu gyhoeddedig sy'n amlygu ac yn arfarnu camau cynnydd bychain iawn disgyblion. Mae athrawon yn casglu a defnyddio ystod eang o ddata i arfarnu cynnydd disgyblion yn erbyn targedau pendant a chlir iawn. Mae rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan lawn ac yn cael diweddariadau rheolaidd drwy'r e-bost. Mae'r ysgol wedi cysylltu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd â'i fframwaith asesu cynhwysfawr yn ofalus.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru ac mae disgyblion wedi mynychu ffeiriau gyrfaoedd lleol. Mae Ymddiriedolaeth Groundwork yn awr yn gweithio gyda disgyblion i wella tir ac amgylchedd yr ysgol. Mae hyn yn rhoi profiad o adeiladu, paentio ac addurno, cynnal a chadw tir a garddwriaeth i ddisgyblion.

Mae'r holl ddisgyblion yn ymgymryd â phrofiad gwaith o fewn yr ysgol. Maent yn rheoli a rhedeg troli bwyd a siop gwerthu smwddis. Enillant brofiad o farchnata, cyfrifyddu a chyfrif stoc.

Mae menter y siop ail-law yn rhoi profiad gwaith ystyrlon i ddisgyblion mewn amgylchedd allanol. Mae'r ysgol wedi cyflogi cydlynydd gweithgareddau i oruchwylio a chefnogi gwaith y disgyblion o reoli a rhedeg y caffi a'r siop o ddydd i ddydd. Mae disgyblion yn cyflawni tasgau fel cyfrif stoc, rheolaeth ariannol a gweini'r cyhoedd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Coryton |
| **Rhif yr ysgol** | 681/6094 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 20/01/2016 |
| **Perchennog** | Orbis Education and Care |
| **Staff** | 5 athro, 8 cynorthwyydd cymorth dysgu a 90 o staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 18 |
| **Darpariaeth** | Dydd a phreswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Chwefror 2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Chwefror 2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/08/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Claire Yardley | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Tîm |